**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**27 Hydref 2023**

**MEMORANDWM ESBONIADOL**

**Disgrifiad**

1. Mae Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (“Deddf 2023”) yn darparu ar gyfer ystod o ddiwygiadau i'r system ardrethu annomestig yng Nghymru a Lloegr, trwy ddiwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”). Cafodd cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n gymwys i Gymru ei gymeradwyo gan y Senedd ar 12 Medi.

2. Mae Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) yn darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf 2023.

**Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

3. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd fod Rheoliadau 2023 wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i’r offeryn gael ei osod. Daeth yr adrannau o Ddeddf 2023 a arweiniodd at Reoliadau 2023 i rym adeg y Cydsyniad Brenhinol. Daeth Rheoliadau 2023 i rym ar y diwrnod y cawsant eu gwneud er mwyn sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth yr effeithir arni o ganlyniad i hynny yn dal yn effeithiol.

4. Yn benodol, byddai cyfyngiad anfwriadol ar gwmpas rhai hawliau apelio ardrethi annomestig i rai talwyr ardrethi yn deillio o unrhyw fwlch sylweddol rhwng cychwyn adrannau perthnasol o Ddeddf 2023 a'r amser y daeth Rheoliadau 2023 i rym.

**Y cefndir deddfwriaethol**

5. Cafodd Deddf 2023 y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023. Gwneir Rheoliadau 2023 o dan bwerau a nodir yn Adran 17(2) o Ddeddf 2023, sy'n galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol, sef yn yr achos hwn, Gweinidogion Cymru, i wneud darpariaeth bellach sy'n ganlyniadol i Ddeddf 2023.

6. Mae Rheoliadau 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol, yn unol ag Adran 17(9) o Ddeddf 2023.

7. Mae adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2023 yn cyflwyno Atodlenni 4ZA, 4ZB, a 5A newydd i Ddeddf 1988, yn eu trefn, sy'n ailddatgan (gyda diwygiadau) y darpariaethau presennol ar gyfer atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig a rhyddhad rhag ardrethi annomestig. Mae Atodlen 4ZA yn ailddatgan darpariaethau ar gyfer hereditamentau a feddiennir ar restr ardrethu leol a nodwyd yn flaenorol yn adrannau 43 a 44 o Ddeddf 1988. Mae Atodlen 4ZB yn ailddatgan darpariaethau ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu ar restr ardrethu leol a nodwyd yn flaenorol yn adrannau 45, 45A a 46 o Ddeddf 1988. Mae Atodlen 5A yn ailddatgan darpariaethau ar gyfer hereditamentau ar restr ardrethu ganolog a nodwyd yn flaenorol yn adrannau 54 a 54ZA o Ddeddf

1988. Mae Paragraffau 3 o Atodlenni 4ZA a 5A i Ddeddf 1988 yn darparu ar gyfer rhyddhad gwella newydd. Cyfeirir at ddarpariaethau ar gyfer atebolrwydd a rhyddhadau mewn sawl man mewn is-ddeddfwriaeth.

8. Mae'r Atodlen i Ddeddf 2023 yn diwygio adran 58(3) o Ddeddf 1988 o ganlyniad i'r Atodlenni newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2023.

9. Mae adran 14(1) o Ddeddf 2023 yn diwygio paragraff 2(7) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, sy'n rhagnodi materion sydd, at ddibenion prisio, i'w cymryd gan y tybir eu bod ar y diwrnod y mae rhaid llunio rhestr ardrethu. Mae'r materion a ragnodwyd yn flaenorol yn is-baragraff 2(7)(d) bellach wedi'u rhannu'n is-baragraffau 2(7)(d) a 2(7)(da). Er nad yw'r diwygiadau i baragraff 2(7) yn newid ei effaith gyffredinol, maent yn effeithio ar gwmpas cyfeiriadau presennol at baragraff 2(7)(d) yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau Newid Addasu Rhestrau ac Apelau”). Mae'r Rheoliadau Newid Rhestrau ac Apelau yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer talwyr ardrethi annomestig i gynnig newidiadau i gynnwys rhestrau ardrethu ac i apelio yn eu herbyn. Mae rheoliadau 12 a 14 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwahaniaethau i'r gweithdrefnau sy'n gymwys mewn amgylchiadau penodol, gan gyfeirio at is-baragraff 2(7)(d) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

<u>Prif ddiben y ddeddfwriaeth</u>

10. Mae Rheoliadau 2023 yn gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth ar ôl i adrannau 1 i 3 a 14 o Ddeddf 2023, a Rhan 1 o'r Atodlen iddi, ddod i rym, er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n dal yn effeithiol a bod yr effeithiau polisi presennol yn cael eu cadw.

11. Mae cyfeiriadau niferus mewn is-ddeddfwriaeth at adrannau 43, 44, 45, 45A, 54 a 58(3)(a) o Ddeddf 1988, y mae angen eu diwygio i adlewyrchu'r ailddatganiad o ddarpariaethau perthnasol gan adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2023, a'r Atodlen iddi. Mae angen diwygiadau canlyniadol i bum set o reoliadau i sicrhau bod cyfeiriadau priodol at ddarpariaethau yn adran 58(3) ac Atodlenni newydd 4ZA, 4ZB, a 5A i Ddeddf 1988 Y rheoliadau hyn yw:

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017;
- Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017; a
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 (“Rheoliadau Symiau a Godir”).

12. Mae rheoliadau 2 i 5 a 6(4) a (5) o Reoliadau 2023 yn diwygio'r is-ddeddfwriaeth a restrir yn y paragraff uchod drwy amnewid cyfeiriadau at

ddarpariaethau a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol yn adrannau 43, 44, 45, 45A, 54 a 58(3)(a) o Ddeddf 1988. Bydd hyn yn sicrhau bod y darpariaethau'n dal yn effeithiol ac yn cadw'r effaith bresennol ar bolisïau.

13. Mae angen diwygiadau canlyniadol ychwanegol i'r Rheoliadau Symiau a Godir, er mwyn sicrhau bod rhyddhad trosiannol yn dilyn ailbrisio ardrethi annomestig 2023 yn rhyngweithio, yn unol â'r bwriad, â'r rhyddhad gwella newydd, a gyflwynwyd gan adrannau 1 a 3 o Ddeddf 2023. Mae rheoliad 6(2) a (3) o Reoliadau 2023 yn diwygio rheoliad 7 o'r Rheoliadau Symiau a Godir, i gymryd i ystyriaeth unrhyw addasiad i werth ardrethol hereditament sy'n deillio o ryddhad gwella wrth gyfrifo'r swm tybiannol a godir. Bydd hyn yn sicrhau bod y swm priodol o ryddhad trosiannol yn cael ei ddarparu, lle y mae rhyddhad gwella hefyd yn gymwys i hereditament.

14. Mae angen diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Newid Rhestrau ac Apelau i gymryd i ystyriaeth y newidiadau i baragraff 2(7) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 a wneir gan adran 14 o Ddeddf 2023. Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2023 yn diwygio cyfeiriadau at is-baragraff 2(7)(d) yn rheoliadau 12(1) a 14(3) a (4) o'r Rheoliadau Newid Rhestrau ac Apelau, i gwmpasu is-baragraff newydd 2(7)(da) hefyd. Bydd hyn yn sicrhau bod effaith polisi'r darpariaethau perthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â hawliau apelio penodol talwyr ardrethi, yn cael ei chadw.

**Ymgynghori**

15. Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal. Mae Rheoliadau 2023 yn hanfodol ac mae angen eu gwneud ar frys, er mwyn sicrhau bod is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru yn dal yn effeithiol a bod bwriad y polisi yn cael ei gadw.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

16. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer Rheoliadau 2023. Effaith Rheoliadau 2023 yw cadw'r sefyllfa bolisi bresennol drwy sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth y maent yn ei diwygio yn dal yn effeithiol ac nad yw'n cael unrhyw effeithiau eraill. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.